**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm.

## Cefndir

**2.** Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol. Er y diben hwn, fe gafodd y Pwyllgor gyfarfod ar 2il Chwefror 2009 i gytuno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09.

**3.** Mae pumed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n cynnwys ei weithgareddau rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009, ynghlwm er ystyriaeth yr aelodau.

## Argymhelliad

**4.** Fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**1.** Dyma bumed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2008 hyd Mawrth 2009.

**Aelodaeth**

**2.** Dyma aelodaeth y Pwyllgor:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Mr Chris Bretherton-Watt (cadeirydd)
Mr John Pollard JP (is gadeirydd)
Mr Simon Fysh
Mr Samindre Soysa

<u>Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Cynghorydd Glyn Williams
Cynghorydd Merfyn Thomas

**Cyfarfodydd gynhaliwyd**

**3.** Mae deddfwriaeth yn pennu fod rhaid i'r holl Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith pob blwyddyn galendr. Daeth y Pwyllgor Safonau at ei gilydd am gyfarfod ar 2il Chwefror 2009. Yn ystod gweddill y flwyddyn, roedd busnes arall yn cael ei drafod drwy ohebiaeth, mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad hwn.

**4.** Dyma'r presenoldeb:

Mr Chris Bretherton-Watt
Mr Simon Fysh
Cynghorydd Glyn Williams
Cynghorydd Merfyn Thomas

**Materion drafodwyd**

**Panel Gydnabyddiaeth Ariannol**

**5.** Yn ei gyfarfod ar 15fed Chwefror 2008, fe drafododd y Pwyllgor y cynnig i sefydlu "Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol". Ystyriwyd effeithiau'r cynnig hwn ar awdurdodau tân ac achub, y goblygiadau i'r Pwyllgor Safonau a chyflwyniad posib o lwfans i aelodau cyfetholedig.

**6.** Fe gyhoeddodd y Panel Cydnabyddiaeth ei Adroddiad Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2008 ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu Adroddiad Atodol lle byddai'r uchafswm o addasiad (uwchraddiad) yn cael ei ragnodi ar gyfer 2009/2010 ac a fyddai'n dod i rym o 1af Ebrill 2009.

**7.** Cyhoeddwyd yr Adroddiad Atodol hwn ym mis Rhagfyr 2008 ac wrth bennu'r uwchraddiad, fe ystyriodd y Panel amrediad o faterion gan gynnwys yr adborth a'r cynrychioliadau oedd wedi dderbyn ar faterion yn yr Adroddiad Cychwynnol.

**8.** Bydd y Panel yn cychwyn ymgynghoriad cynhwysfawr ar lwfansau aelodau yn ystod y cyfnod Chwefror hyd Fehefin 2009. Hwn fydd y cyfle cyntaf (ers sefydlu rôl y cynghorydd modern a phroffesiynol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) i randdeiliaid gyfrannu i adolygiad cynhwysfawr o lwfansau aelodau.

**9.** Bydd adolygiad llawn o Gynllun Lwfansau Aelodau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhelir ar 16eg Mawrth 2009. Mae'r adolygiad hwn yn gyson gyda'r trefniadau wnaed gan awdurdodau cyfansoddol. Mae Clercod y tri Awdurdod Tân yng Nghymru wedi cyfarfod a thrafod sut i ymdrin gyda hyn yn eu hawdurdodau eu hunain ac yn argymell yr adolygiad hwn i'w awdurdod eu hunain.

**Hyfforddiant a Datblygu**

**10.** Yn dilyn etholiadau awdurdodau lleol ym mis Mai 2008, roedd yr holl awdurdodau lleol wedi darparu hyfforddiant a datblygiad i gynghorwyr newydd a chynghorwyr oedd yn dychwelyd ar agweddau amrywiol gan gynnwys y fframwaith foesegol a'r cod ymddygiad.

**11.** Ni adnabuwyd unrhyw anghenion hyfforddiant pellach ar y fframwaith foesegol i aelodau o'r Pwyllgor Safonau neu aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub yn ystod y flwyddyn bresennol. Ond, nodwyd bydd cyflwyniad y Cod Ymddygiad Diwygiedig yn ystod 2008 yn gorfodi'r ddarpariaeth o hyfforddiant i bob aelodau ar y newidiadau oherwydd y Cod diwygiedig.

**Cod Ymddygiad**

**12.** Cafwyd adroddiad ysgrifenedig a diweddariad ar lafar ar y Cod Ymddygiad gan y Clerc.

**Busnes drafodwyd drwy ohebiaeth**

**13.** Yn ystod 2007/08, hysbyswyd aelodau o'r pwyllgor, drwy ohebiaeth, o weithrediad 'Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007' a sut mae'n gymwys i bwyllgorau safonau o dan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007'. Hysbyswyd aelodau am gyhoeddiad a chynnwys Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2006/07. Hefyd, er dibenion gwybodaeth, dosbarthwyd copïau o bapurau achlysurol gyhoeddwyd gan Bwrdd Safonau Lloegr ar 'Ragdueddiad, Rhagderfyniad neu Dueddiad, a'r cod' i'r Pwyllgor.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

**14.** Yn ystod cyfnod yr adroddiad yma, ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr mewn perthynas â'u rôl fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn unol â hynny, ni gyfeiriwyd unrhyw faterion i'r pwyllgor i'w harchwilio neu wneud penderfyniad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

**15.** Hysbyswyd yr aelodau y bydd pwyllgor archwilio yn cael ei sefydlu o Ebrill 2009 ymlaen. Roedd y yr aelodau yn gefnogol iawn o'r bwriad hyn.

**16.** Roedd yr aelodau yn cefnogi ac yn falch o nodi bwriad yr Awdurdod i geisio am lefel safonol Breinlen Cymru ar gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau.

**Gweithgareddau eraill ymgymerwyd â hwy gan aelodau o'r Pwyllgor Safonau**

**17.** Mynychodd yr aelodau canlynol ddigwyddiad gwybodaeth yn OpTic ar 11eg Mehefin ac felly wedi derbyn gwybodaeth ar fframwaith foesegol a'r cod ymddygiad diwygiedig yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2008:

Chris Bretherton-Watt
Samindre Soysa
Simon Fysh

**18.** Roedd Symon Fysh yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 28ain Gorffennaf a bu Chris Bretherton-Watt yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 22$^{ain}$ Medi 2008 fel arsylwyr.

**Casgliad**

**19.** Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad yma.